

‘Estroniaid Gelyniaethus’ a Gwersylloedd Caethiwo

TAFLEN WYBODAETH A GWEITHGAREDDAU I DDYSGWYR

1. 'Estroniaid gelyniaethus' a'u caethiwo

Ar ôl i'r rhyfel ddechrau ym mis Medi 1939, ystyriai Llywodraeth Prydain bob Almaenwr ac Awstriad ym Mhrydain yn fygythiad i ddiogelwch gwladol; daethant i gael eu hystyried yn 'estroniaid gelyniaethus' a bu'n rhaid iddynt gofrestru gyda'r heddlu. Er bod y mwyafrif yn parhau i fod yn rhydd, yn ystod haf 1940 tynhawyd y cyfyngiadau a chafodd degau o filoedd eu caethiwo mewn gwersylloedd. Y gwersyll mwyaf o'r gwersylloedd hyn oedd Gwersyll Caethiwo Hutchinson ar Ynys Manaw. Ffoaduriaid Iddewig oedd mwyafrif y rhai a garcharwyd, ffoaduriaid a oedd wedi dianc rhag erledigaeth y Natsïaid a dod o hyd i noddfa ym Mhrydain. Roedd amodau byw llawer o'r gwersylloedd yn annigonol. Roedd yna brinder cyflenwadau meddygol, a diffyg dŵr glân a dulliau gwaredu carthion priodol.


Bywgraffiad Wilhelm Jondorf

Roedd **Wilhelm Jondorf** yn ddylunydd graffeg hunanddysgedig, yn fardd, yn gyfansoddwr ac yn ganwr, ac roedd yn berchen ar ei gwmni dylunio graffeg a chyhoeddi ei hun yn Nuremberg, yr Almaen. I ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid, ymfudodd ef a'i deulu i Brydain ym mis Tachwedd 1938.

Bu iddynt ymgartrefu ym Mhenarth, Bro Morgannwg, a thua diwedd 1938 sefydlodd Wilhelm gwmni cardiau cyfarch, Cardiff Cards Ltd, ar Ystad Ddiwydiannol Trefforest.

Cafodd Wilhelm ei gaethiwo ym mis Mai 1940, i ddechrau yng ngwersyll dros dro Prees Heath yn Swydd Amwythig, lle roedd yr amodau braidd yn sylfaenol a'r carcharorion yn cysgu ar fatresi gwellt mewn pebyll. Mae'n ymddangos bod Wilhelm wedi dod yn rhan o fywyd diwylliannol cyfoethog y gwersyll yn gyflym iawn, bywyd a oedd yn cynnwys prifwyliau ac arddangosfeydd celf, yn ogystal â 'phrifysgol' lle roedd academyddion wedi'u caethiwo yn traddodi darlithoedd. Ddiwedd haf 1940, pan gaeodd Prees Heath, trosglwyddwyd Wilhelm i wersyll Onchan ar Ynys Manaw, a oedd yn gwneud defnydd o dai llety segur. Parhaodd i fod yn weithgar, gan gynhyrchu darluniau lliw dychanol a hwyliog o fywyd y gwersyll.

Rhyddhawyd Wilhelm o'i gaethiwed ddiwedd 1940 neu ddechrau 1941 a dychwelodd i Gymru.



The Fifth Columnist, Onchan, Isle of Man, 1940.

Darlun gan Wilhelm Jondorf.

Inc a dyfrlliw ar gardbord. 15.2X12.5 cm.

Rhodd Mrs Betty Jondorf, Llundain.

Casgliad Amgueddfa Gelf Yad Vashem, Jerwsalem.

Bywgraffiad Paul Hornig

Magwyd **Paul Hornig** yn Fienna, Awstria. Roedd yn wleidyddol weithgar ers pan oedd yn ifanc, gan orymdeithio a gwrthdystio ar y cyd ag ymgyrchwyr o Fienna.

Wedi i Hitler feddiannu Awstria ym mis Mawrth 1938 yn ystod yr *Anschluss*, sef y broses o atodi Awstria i Reich yr Almaen, ceisiodd llawer o Iddewon Awstria adael am eu bod mewn dychryn ynghylch yr hyn a allai ddigwydd iddynt pe byddent yn byw dan gyfundrefn Natsïaidd mewn gwlad Natsïaidd.

Er mwyn dianc rhag cael ei arestio gan y Natsïaid, cafodd Paul fisa dros dro i Loegr a dechreuodd astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt. Yn y diwedd, cafodd ei arestio ar y sail ei fod yn 'estron gelyniaethus' ac, ym mis Gorffennaf 1940, cafodd ei gludo mewn llong i Ganada yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i estyn ei rhwydwaith gwerysloedd i wledydd y Gymanwlad. Cafodd ei garcharu yn y gwerysll caethiwo yn Sherbrooke, i'r dwyrain o Montreal, a hynny mewn bloc gorllawn a oedd wedi'i leoli mewn dwy sied

reilffordd â'u nenfydau'n gollwng, a lle roedd toiledau'n brin, a'r system wresogi yn annigonol. Ar ôl chwe mis, cafodd ei gludo'n ôl mewn llong i'r DU a'i ryddhau.

Wrth ddwyn y gorffennol i'r cof, dywedodd Paul:

“Roedd cael fy ngwrthod gan yr Awstriaid am fy mod yn Iddew a'm carcharu gan y Saeson am fod yn Awstriad yn brofiad darostyngol”.¹

Derbyniwyd ef yn ddiweddarach gan y Fyddin Brydeinig a hyfforddodd yn Aberdyfi, Gwynedd, gyda'r [X Troop](#).

Bywgraffiadau Betty a Franz Hausner



[Franz a Betty Hausner ar ddiwrnod eu priodas yn Llundain yn 1939.](#)

Llun trwy garedigrwydd Tony Hausner.

Ffoaduriaid Iddewig o Fienna, Awstria oedd **Franz Hausner a Betty Heimann**.

¹ Leah Garrett, *X Troop: the Secret Jewish Commandos Who Helped Defeat the Nazis* (Llundain: Vintage, 2022), tt. 33-34.

Roeddent yn adnabod rhywfaint ar ei gilydd yn Fienna, ond dim ond wedi iddynt gwrdd eto yn Llundain y syrthiodd y ddau mewn cariad a phriodi yno yn 1939. Yn fuan ar ôl y briodas, symudodd Franz, Betty, a brawd Franz, Walter, i dŷ a rennid yng Nghaerdydd. Aethant ati i sefydlu ffatri tecstilau o'r enw Novel Textile Co. Ltd ar Ystad Fasnachu Trefforest, ger Pontypridd. Yn ôl yn Fienna, roedd y ddau frawd wedi gweithio yn y busnes teuluol, yn gwneud les a *chenille*.

Wedi i'r rhyfel ddechrau, cafodd Franz a Betty eu harestio a'u hanfon i ddau wersyll ar wahân ar Ynys Manaw. Cafodd Franz ei gaethiwo yng Ngwersyll Mooragh a Betty ym Mhort Erin, a hynny am fod dynion a menywod yn gorfod byw ar wahân. Gwyddom am fywyd yn y gwrsylloedd a'r caledi mawr yno oherwydd y llythyrau rheolaidd y byddai'r ddau'n eu hanfon at ei gilydd. Datgelodd Betty ei bod wedi cael ei gorfodi i rannu ystafell â menyw Natsiaidd, ac mai dim ond bob 14 diwrnod y caniateid iddi gael bàth. Ysgrifennodd Franz am anawsterau gyda'u busnes, ac yn y pen draw penderfynodd werthu eu ffatri tecstilau.



[Llythyr a ysgrifennwyd gan Franz Hausner, a oedd wedi'i gaethiwo yng Ngwersyll Mooragh yn Ramsey, Ynys Manaw, at ei wraig, Betty, a oedd wedi'i chaethiwo yn Port Erin, Ynys Manaw, 27 Tachwedd 1940.](#)

Lluniau trwy garedigrwydd Tony Hausner.

Wedi i'w cyfnod o flwyddyn mewn caethiwed ddod i ben, penderfynodd Franz a Betty adael Caerdydd a symud i Lerpwl, cyn ymfudo yn y pen draw i Unol Daleithiau America yn 1950.

3. Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 1

a) Darllenwch y diffiniad canlynol o gaethiwo:

“Ystyr caethiwo yw carcharu pobl, fel arfer mewn grwpiau mawr, heb fod yna gyhuddiadau yn eu herbyn na bwriad i ffeilio cyhuddiadau yn eu herbyn. Defnyddir y term yn arbennig ar gyfer caethiwo dinasyddion gelyniaethus yn ystod rhyfel neu bobl a ddrwgdybir o derfysgaeth.”²

b) Trafodwch â'r dosbarth cyfan:

- Beth yw eich barn am garcharu pobl heb fod yna gyhuddiadau yn eu herbyn na bwriad i ffeilio cyhuddiadau yn eu herbyn?
- Pwy sy'n ddinasyddion gelyniaethus?

GWEITHGAREDD 2

a) Darllenwch yr wybodaeth am yr 'estroniaid gelyniaethus' Wilhelm Jondorf, Paul Hornig, a Betty a Franz Hausner, a gwrandewch ar y [clip sain](#) o gyfweiliad hanes llafar â Dorothy Fleming. Yn y clip, mae Dorothy yn disgrifio'r diwrnod y cafodd ei thad, Erich Oppenheimer, ei arestio a'i garcharu.

Trawsgrifiad Hanes Llafar:

Roedd wedi dod o hyd i waith yn Hatton Garden. A gwyddoch sut yr oedd pethau gyda'r broses gaethiwo. Os byddent yn dod o hyd i'r bobl, byddent yn eu cymryd. Os na fyddent, ni fyddent yn dod eto fel arfer. Dyna pam y byddai llawer o'r ffoaduriaid a oedd â gwaith yn treulio'u diwrnod yn y parc.

'Nawr, roedd fy nhad yn gweithio yn Hatton Garden a dywedodd fy mam ei fod wedi dod adref amser cinio un diwrnod, a dywedodd ei bod wedi gwelwi a dweud wrtho, 'Beth wyt ti'n ei wneud yma?' A dywedodd yntau, 'Dw i wedi dod i nôl ychydig o offer.' A'r funud honno, canodd y gloch, a daethant a dweud, 'Mr Oppenheimer, mae arnom ofn bod yn rhaid i chi ddod gyda ni'.

A chymerwyd ef i Ynys Manaw.

² Wikipedia, *Internment* (2022) <<https://en.wikipedia.org/wiki/Internment>> [cyrchwyd ar 09 Gorffennaf 2024]

A dim ond 'nawr, pan fu farw fy mam, y deuthum o hyd i'w holl lythyrau o Ynys Manaw. Doeddwn i ddim yn gwybod eu bod yn bodoli. Mae'n rhaid ei fod wedi ysgrifennu fwy neu lai bob yn ail ddiwrnod, yn Almaeneg.

Ac nid yw'n cwyno, ond mae'n rhaid ei fod wedi dioddef yn ofnadwy. Roedd wedi dianc rhag y Natsïaid ac yna wedi cael ei gaethiwo ymhell oddi wrth fy mam a hithau ynghanol y Blitz. Mae'n rhaid bod y cyfan wedi bod yn hollol ddychrynlyd. Gwn eu bod wedi creu rhyw fath o fywyd iddynt eu hunain a'u bod yn chwarae cerddoriaeth ac yn cael darlithoedd a phob math o bethau. Ond mae'n rhaid bod hyn wedi bod yn echrydus iddo.

b) Ystyriwch a thrafodwch y canlynol mewn paru neu grwpiau bach:

- Pam y bu i Lywodraeth Prydain gaethiwo'r ffoaduriaid Iddewig?
- Beth oedd profiad Wilhelm Jondorf, Paul Hornig, Betty a Franz Hausner, ac Erich Oppenheimer?
- Sut oedd y ffoaduriaid Iddewig a lwyddodd i ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid, a gafodd loches ym Mhrydain, ac yna eu caethiwo gan Lywodraeth Prydain yn teimlo?
- Yn eich barn chi, pa effaith y byddai cael eich gorfodi i adael eich swydd a/neu eich teulu am yr eildro yn ei chael ar rywun?

c) Cyflwynwch y prif bwytiau trafod i'r dosbarth cyfan.

GWEITHGAREDD 3

a) Ysgrifennwch lythyr at bapur newydd o safbwynt ymgyrchydd yn 1940 sy'n gwrthwynebu caethiwo ffoaduriaid Iddewig.

b) Rhannwch eich llythyr â'r dosbarth cyfan i gael trafodaeth ac adborth.